



Wedi ei ariannu gan
Llywodraeth y DU

Cyngor
sir ddinbych
denbighshire
County Council



Adroddiad Crynodeb ar Ymgynghoriad Cyhoeddus Budd-ddeiliaid a'r Gymuned ar Floc Toiledau Maes Parcio Lôn Las mis Hydref 2023

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available
in English.

WEDI'I YRRU GAN
FFYNIANT
— BRO —

Adroddiad Crynodeb Ymgynghoriad Cyhoeddus Budd- ddeiliaid a'r Gymuned ar Doiledau Maes Parcio Lôn Las

Cynnwys

Cynnwys	2
Cefndir	3
Cyllid Ffyniant Bro	3
Corwen	3
Rhestr o Fudd-ddeiliaid	4
Partneriaid cyflawni	4
Budd-ddeiliaid cymunedol	5
Crynodeb o'r gwaith ymgysylltu ac ymgynghori a wnaed hyd yma	5
Dadansoddi cam yr Ymgynghoriad Cyhoeddus (rhannu gwybodaeth)	8
Data a gasglwyd	8
Cwestiwn: Cynllun A neu Gynllun B?	9
Sylwadau a dderbyniwyd	9

Adroddiad Crynodeb Ymgynghoriad Cyhoeddus Budddeiliaid a'r Gymuned ar Doiledau Maes Parcio Lôn Las

Pwrpas yr adroddiad hwn

Pwrpas yr adroddiad hwn yw crynhoi'r ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Bloc Toiledau ym Maes Parcio Lôn Las.

Cefndir

Cyllid Ffyniant Bro

Cronfa Llywodraeth y DU yw'r Gronfa Ffyniant Bro. Mae'n un rhan o gynnig ehangach y Llywodraeth i wella cyfleoedd ledled y DU. Diben penodol y gronfa yw cefnogi buddsoddi mewn mannau lle gall wneud y gwahaniaeth mwyaf i fywyd bob dydd, yn cynnwys hen ardaloedd diwydiannol, trefi difreintiedig a chymunedau arfordirol. Gall hyd at £4.8 biliwn (tan 2024-25) fod ar gael drwy'r Gronfa ledled y DU gydag o leiaf £800 miliwn i'w fuddsoddi yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Bydd y Gronfa'n canolbwyntio ar fuddsoddiadau cyfalaf. Am ragor o wybodaeth, [gweler y wefan](#).

Corwen

Nod y prosiect newydd hwn yw hyrwyddo a gwella canol tref Corwen a Maes Parcio Lôn Las gan dwtio palmentydd drwy eu glanhau a'u hail-bwyntio pan fo angen, gosod slabiau newydd mewn mannau heb rai ar hyn o bryd, ac adnewyddu celfi stryd ac arwyddion yng nghanol y dref. Bydd prosiect Maes Parcio Lôn Las yn gwella cysylltiadau a phrofiadau ymwelwyr drwy ailwampio'r bloc toiledau'n gyfleuster allweddol gyda mannau gwefru ychwanegol ar gyfer ceir trydan i breswylwyr ac ymwelwyr eu defnyddio, a safle bws ychwanegol ar gyfer teithio ymhellach. Y nod yw gwella profiad ymwelwyr a phreswylwyr ac annog pobl i dreulio rhagor o amser yma.

I gyflawni hynny, mae dau o feysydd allweddol wedi'u nodi:

1. Canol Tref Corwen
2. Maes Parcio Lôn Las

Adroddiad Crynodeb Ymgynghoriad Cyhoeddus Budd-ddeiliaid a'r Gymuned ar Doiledau Maes Parcio Lôn Las

Yn benodol, mae prosiect Maes Parcio Lôn Las yn ceisio:

- Adnewyddu'r bloc toiledau i'w drosi'n ôl yn gyfleuster cyhoeddus agored i ddynion/merched.
- Lôn fysis newydd ym Maes Parcio Lôn Las gyda chyrbiau isel er hygyrchedd.
- 5 pwynt gwefru deuol i gerbydau trydan i'r cyhoedd eu defnyddio (eisoes wedi'u gosod ac yn gweithio).
- Gosod meinciau a byrddau picnic newydd yn lle'r rhai presennol.
- Codi arwyddion newydd yn y maes parcio i ddangos y ffordd i ymwelwyr fynd i'r Stryd Fawr.

Rhestr o Fudd-ddeiliaid

Mae'r budd-ddeiliaid y mae'r Cyngor wedi ymgysylltu â nhw neu y bydd yn disgwyl ymgysylltu â nhw ar wahanol gamau o'r prosiect yn cynnwys:

- **Yr Arweinydd, Aelodau Etholedig a Grwpiau Ardal yr Aelodau** – yr Aelod Arweiniol, Cyngorwyr Sir a Chynghorwyr Tref Corwen
- **Gwasanaethau Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chefn Gwlad** – Swyddog Coed, Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol, Ecoleg
- **Gwasanaethau Priffyrdd, Cyfleusterau ac Amgylcheddol** – Cludiant, Gwasanaethau Stryd
- **Gwasanaethau Cyllid ac Eiddo** – Dylunio ac Adeiladu
- **Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Marchnata**
- **Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd**

Partneriaid cyflawni

Mae partneriaid cyflawni'n gweithio mewn sefydliadau y tu allan i'r Cyngor ond â dyletswyddau statudol dan ddeddfwriaeth Llywodraeth Cymru neu'r Deyrnas Gyfunol i fod

Adroddiad Crynodeb Ymgynghoriad Cyhoeddus Budd-ddeiliaid a'r Gymuned ar Doiledau Maes Parcio Lôn Las

yn rhan o'r prosiect. Gallai'r sefydliadau hyn hefyd fod â nodau sefydliadol sy'n cefnogi amcanion y prosiect.

- Cyngor Tref Corwen
- Llywodraeth Cymru
- Ymddiriedolaeth Rheilffordd Llangollen – Gorsaf Drenau Corwen

Budd-ddeiliaid cymunedol

Mae budd-ddeiliaid cymunedol yn cyfrif eu hunain yn bobl sy'n perthyn i garfan benodol o'r gymdeithas neu'r economi fel unigolion neu sefydliadau preifat.

- Cymuned fusnes ehangach Corwen
- Y gymuned sy'n byw yng Nghorwen
- Pobl sy'n gweithio yng Nghorwen
- Pobl sy'n ymweld â Chorwen (twristiaid, er enghraifft)

Crynodeb o'r gwaith ymgysylltu ac ymgynghori a wnaed hyd yma

Hyd yma, mae'r gwaith ymgysylltu ac ymgynghori canlynol wedi'i wneud:

Adroddiad Crynodeb Ymgynghoriad Cyhoeddus Budd- ddeiliaid a'r Gymuned ar Doiledau Maes Parcio Lôn Las

Dyddiad	Crynodeb o'r gweithgarwch	Adnoddau angenrheidiol	Budd-ddeiliaid dan sylw
17 Tachwedd 2022	Cerdded o amgylch Corwen â Chynghorwyr Sir Ddinbych a Chynghorwyr y Dref	E-bost	Swyddogion y Cyngor Cynghorwyr Sir Aelodau Cyngor Tref Corwen
9 Chwefror 2023	Sesiwn wybodaeth anffurfiol ym Mharc Coffa Corwen (4 awr)	Anfon llythyrau at breswylwyr a busnesau lleol Negeseuon ar gyfryngau cymdeithasol Hyrwyddo ymgysylltu drwy fudd-ddeiliaid allweddol	Busnesau yng Nghorwen Pobl sy'n byw yng Nghorwen

Adroddiad Crynodeb Ymgynghoriad Cyhoeddus Budd- ddeiliaid a'r Gymuned ar Doiledau Maes Parcio Lôn Las

Dyddiad	Crynodeb o'r gweithgarwch	Adnoddau angenrheidiol	Budd-ddeiliaid dan sylw
10 Chwefror 2023 – 23 Chwefror 2023	Holiadur yr Ymgynghoriad (rhannu gwybodaeth)	E-bost Hyrwyddo ymgysylltu drwy fudd-ddeiliaid allweddol Negeseuon ar gyfryngau cymdeithasol Porth Ymgysylltu Sgwrs Sir Ddinbych Holiaduron ar bapur	Pawb â diddordeb neu gysylltiad
10 Hydref 2023	Noson am yr Ymgynghoriad Cyhoeddus ym Mharc Coffa Corwen (1 awr)	Anfon llythyrau at breswylwyr a busnesau lleol Negeseuon ar gyfryngau cymdeithasol Hyrwyddo'r ymgynghoriad drwy fudd-ddeiliaid allweddol	Busnesau yng Nghorwen Pobl sy'n byw yng Nghorwen

Adroddiad Crynodeb Ymgynghoriad Cyhoeddus Budd-ddeiliaid a'r Gymuned ar Doiledau Maes Parcio Lôn Las

Dyddiad	Crynodeb o'r gweithgarwch	Adnoddau angenrheidiol	Budd-ddeiliaid dan sylw
10 Hydref 2023 – 31 Hydref 2023	Slip pleidleisio (rhannu gwybodaeth)	E-bost Hyrwyddo ymgysylltu drwy fudd-ddeiliaid allweddol Negeseuon ar gyfryngau cymdeithasol Slip pleidleisio papur	Busnesau yng Nghorwen Pobl sy'n byw yng Nghorwen

Dadansoddi cam yr Ymgynghoriad Cyhoeddus (rhannu gwybodaeth)

Roedd y noson wybodaeth a gynhaliwyd yn y Parc Coffa ar 10 Hydref 2023 yn llwyddiant, gyda chriw da yno, a hoffem ddiolch i bawb a wnaeth yr ymdrech i ddod i siarad â ni. Gadawodd y Cyngor y dyluniadau arfaethedig a'r slipiau pleidleisio yn y llyfrgell o 11 Hydref 2023 tan 13 Hydref 2023 i ofyn am farn pobl am ddyluniad y bloc toiledau a chasglu unrhyw sylwadau eraill.

Gwnaed 18 o ymatebion drwy slipiau pleidleisio Sir Ddinbych.

Data a gasglwyd

Casglwyd data i'n helpu i ddeall beth oedd barn yr holl rai a gymerodd ran o'r ddau ddyluniad ac i bleidleisio ar yr opsiwn oedd orau ganddynt.

Adroddiad Crynodeb Ymgynghoriad Cyhoeddus Budd- ddeiliaid a'r Gymuned ar Doiledau Maes Parcio Lôn Las

Cwestiwn: Cynllun A neu Gynllun B?

Ymateb	Nifer yr Ymatebwyr	Canran yr Ymatebwyr
Cynllun A	15	83%
Cynllun B	1	6%
Dim	2	11%

Sylwadau a dderbyniwyd:

Ymateb	Nifer yr Ymatebwyr
Angen caeadau ar draws y fynedfa ar wahân i'r toiled hygyrch – pwy sy'n gyfrifol am lanhau? – Bydd arogl i doiledau dur gloyw. Camerâu TCC wrth y fynedfa – sut mae tapiau'r basnau golchi dwylo'n cael eu rheoli/Pa mor aml fyddant yn cael eu glanhau – nid oes unrhyw gyfleusterau newid clytiau. A yw'r golau'n gweithio ar synhwyrdd neu a yw wedi'i gynnau drwy'r dydd?	1
Pryderu y bydd yn lle i bobl ymhél os oes mynediad agored iddynt. Mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ardal y maes parcio yn barod, felly rwy'n credu bod angen caeadau i gau'r toiledau ar ôl iddi dywyllu a chamerâu TCC i fonitro.	1
Mae wrinalau'n hawdd eu glanhau ond mae ciwbiclau yn aml yn mynd yn flêr a phobl ddim eisiau eu defnyddio.	1
Angen camerâu TCC. Angen amddiffyn y system blymio i gyd, yn cynnwys pibelli o'r bloc. Switshys gwres yn yr ardal wasanaeth – efallai ar amserydd/thermostat. Bydd drws siglo i'r brif ardal ar ôl y giât dro'n caniatáu gwresogi'n fwy effeithiol. A fydd y datblygiad newydd yn cynnwys leinin thermol/deunydd ynysu yn y to er mwyn gwresogi'n effeithlon – rhag i'r pibelli fyrstio ac er mwyn bod yn gyfforddus?	1
Giatiau tro yn y blaen gyda chamerâu TCC i fonitro.	1

Adroddiad Crynodeb Ymgynghoriad Cyhoeddus Budd- ddeiliaid a'r Gymuned ar Doiledau Maes Parcio Lôn Las

Ymateb	Nifer yr Ymatebwyr
Hapus o weld arian parod a cherdyn fel opsiynau talu. Elw'r taliadau i dalu am lanhawr.	1
Gwelliant da.	1
Mawr ei angen.	1
Mawr ei angen. Gofynnaf i'r trefniadau terfynol gael eu rhannu â'r gymuned.	1
Rhaid cael camerâu TCC! Cynlluniau gwych!	1
Pam mae cymaint o giwbiclau? 1 toiled anabl? Angen camerâu TCC gan fod cymaint o fandaliaeth. Giatiau tro'n haws ar gyfer mynediad ond hefyd yn haws i fandaliaid.	1
Pam mae angen cymaint o giwbiclau? Bydd y fynedfa i'r toiledau (giatiau tro) yn ei gwneud yn haws mynd i mewn i fandaleiddio! Angen camerâu hefyd!	1

Y camau nesaf

Diolch o galon unwaith eto i'r holl breswylwyr a wnaeth yr ymdrech i ddod i siarad â ni yn y noson ymgynghori. Diolch hefyd i'r rhai ohonoch chi sydd wedi llenwi'r slipiau pleidleisio yn y llyfrgell wedyn. Rydym wedi ystyried eich sylwadau a'ch awgrymiadau a, lle bo modd, wedi newid y dyluniad terfynol ar sail y rhai oedd yn ymarferol ac yn unol â chwmpas y cynllun a'r cyllid. Pan fydd gennym fwy o wybodaeth i'w chyhoeddi, fe wnawn ei rhannu drwy Gyngor Tref Corwen ac ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae'r Cyngor yn annog preswylwyr, ymwelwyr a busnesau i ddal ati i rannu eu profiadau a'u barn am Gorwen. Bydd y data'n ddefnyddiol ac yn cynorthwyo'r Cyngor i ddal i gynllunio a chefnogi Corwen yn y dyfodol.